Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Model cynnydd: newidiadau i drefniadau rhyddhau o'r carchar

## Yr hyn y mae angen i ddioddefwyr ei wybod

Rydym yn deall y gall fod yn anodd derbyn gwybodaeth am ddedfryd neu ryddhau troseddwr. Mae'r canllaw hwn yn egluro beth sy'n newid, sut gellir rhoi gwybod i ddioddefwyr a pha gymorth sydd ar gael.


### Pam bod trefniadau rhyddhau o'r carchar yn newid?

Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno newidiadau i drefniadau rhyddhau o'r carchar drwy Ddeddf Dedfrydu 2026. Bwriad y newidiadau yw helpu i sicrhau bod digon o le mewn carchardai, gan sicrhau bod troseddwyr yn cael eu goruchwylio'n llym pan gânt eu rhyddhau i gadw dioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ddiogel.

### Beth yw'r Model Cynnydd newydd?

Mae'r Model Cynnydd yn berthnasol pan fydd carcharorion yn bwrw math penodol o ddedfryd a elwir yn **Ddedfryd Benodol Safonol**. Mae hon yn ddedfryd o garchar am gyfnod penodol gyda dyddiad gorffen pendant, wedi'i rhannu rhwng yr amser a dreulir yn y ddalfa a'r amser a oruchwylir yn y gymuned ar drwydded.

Bydd tri cham i ddedfryd troseddwr:




Mae'r Model Cynnydd yn newid faint o amser y bydd troseddwyr yn ei dreulio yn y carchar (cam 1) cyn mynd i oruchwyliaeth ddwys yn y gymuned (cam 2).

Yng ngham 2: goruchwylir y troseddwr yn y gymuned gan y Gwasanaeth Prawf. Bydd hyn yn cynnwys apwyntiadau rheolaidd, asesiadau risg, a monitro amodau'r drwydded.

Yng ngham 3: bydd pob troseddwr yn aros ar drwydded, a gellir eu galw'n ôl i'r ddalfa os na ellir eu rheoli'n ddiogel yn y gymuned. Bydd carfan a enwir yn parhau i gael ei goruchwylio'n weithredol tan ddiwedd eu dedfryd, gan gynnwys yr holl droseddwyr sy'n cael eu rheoli o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).

## A fydd dyddiad rhyddhau pob troseddwr yn newid?

Nid yw'r newidiadau'n berthnasol i fwy na 18,000 o droseddwyr. Cyhoeddir rhestr o droseddau nad yw'r model hwn yn berthnasol iddynt, yma.

Er bod y troseddau hyn wedi'u heithrio, gallai'r dyddiad rhyddhau ar gyfer troseddwr newid o hyd os yw'n bwrw dedfrydau am droseddau eraill. Er enghraifft, os yw rhywun yn bwrw dedfryd o 5 mlynedd am dreisio a 5 mlynedd am ymosod yn olynol, er na fydd eu dyddiad rhyddhau ar gyfer treisio yn newid, efallai y byddant yn cael eu rhyddhau'n gynharach na'r bwriad oherwydd bydd y ddedfryd ymosod yn ddarostyngedig i'r Model Cynnydd.

Nid yw'r newidiadau chwaith yn berthnasol i droseddwyr sy'n bwrw dedfrydau mwy difrifol, gan gynnwys:

- Dedfrydau oes
- Dedfrydau Penodol Estynedig
- Dedfrydau i Droseddwyr sy'n Peri Pryder Penodol
- Dedfrydau amhenodol eraill, gan gynnwys dedfrydau Carcharu er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPP)

Mae rhagor o wybodaeth am wahanol fathau o ddedfrydau ar gael yma: Mathau o ddedfryd

## Pa fesurau diogelu sydd ar waith?

Mae amddiffyn dioddefwyr yn dal yn flaenoriaeth. Bydd pob troseddwr sy'n cael ei ryddhau drwy'r Model Cynnydd yn gaeth i amodau trwydded llym a chyfnod o oruchwyliaeth ddwys. Mae'r rhain yn rheolau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, neu efallai y byddant yn cael eu 'galw'n ôl' a'u hanfon yn ôl i'r carchar.

Mae gan ymarferwyr prawf ddisgresiwn i ddefnyddio amodau trwydded priodol lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur. Gall y rhain gynnwys:

- gwaharddiad rhag cysylltu â'r dioddefwr neu ei deulu;
- gofyniad i fyw mewn cyfeiriad penodol fel y gellir monitro a rheoli ei leoliad fel rhan o'i oruchwyliaeth;
- gofyniad i gymryd profion alcohol;
- gwaharddiad rhag gyrru, mynychu digwyddiadau cyhoeddus, neu fynd i dafarndai, clybiau a bariau.
- ar gyfer rhai troseddwyr rhyw a threisgar difrifol, gellir gosod cyfyngiadau ychwanegol, gan gynnwys ardaloedd y gwaherddir iddynt eu gadael (parthau cyfyngu).

Yn ogystal:

- Ceir rhagdybiaeth hefyd y bydd pob troseddwr yn gwisgo tag electronig ar ôl ei ryddhau, oni bai ei bod yn anaddas neu'n amhriodol gwneud hynny. Er enghraifft, lle nad oes cartref sefydlog.
- Cynhelir prawf cyffuriau ar hap ar gyfer pobl ar drwydded.
- Mesurau ychwanegol ar gyfer troseddwyr trais a rhai troseddwyr sy'n cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys rhagdybiaeth o fonitro llwybr GPS 12 mis, goruchwyliaeth

gymunedol gryfach ac ystyriaeth orfodol i gyfeirio at adeiladau cymeradwy, llety cymunedol mwyaf diogel y gwasanaeth prawf.

Mae dioddefwyr sydd wedi optio i mewn ac sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn gallu cyflwyno sylwadau am yr amodau a fyddai, yn eu barn nhw, yn eu diogelu drwy eu Swyddog Cyswllt Dioddefwyr dynodedig. Gallai hyn gynnwys ardal waharddedig neu amod digyswllt.

## Sut bydd dioddefwyr yn cael gwybodaeth am newidiadau i ddyddiadau rhyddhau ac amodau trwyddedau?

Bydd dedfrydau sydd o fewn cwmpas y newidiadau nawr yn cael eu hailgyfrifo. Gall hyn fod yn gymhleth mewn rhai achosion a bydd yn cymryd amser, a fydd yn golygu efallai na fydd dioddefwyr yr effeithir arnynt yn clywed diweddariadau am sawl wythnos neu fwy. Rhagwelwn y bydd yr holl gyfrifiadau dedfryd yn cael eu hadolygu erbyn diwedd mis Medi.

**Rydym yn gweithio i sicrhau bod llwybrau i ddioddefwyr yr effeithir arnynt naill ai ar gael drwy dderbyn gwybodaeth yn rhagweithiol, neu eu bod yn cael gwybod eu bod yn gallu gofyn am wybodaeth. Felly, nid oes angen i ddioddefwyr weithredu ar hyn o bryd.** Mae dau brif lwybr i ddioddefwyr dderbyn neu ofyn am wybodaeth:

Y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

Mae dioddefwyr troseddau rhyw a threisgar difrifol penodol, lle mae troseddwr yn cael dedfryd o 12 mis neu fwy yn y carchar, yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr. Gall dioddefwyr sy'n dewis ymuno â'r cynllun gael gwybodaeth am ryddhau troseddwr lle bo hynny'n briodol, a gallant hefyd gyflwyno sylwadau am amodau trwydded a gofynion goruchwylio. Bydd y Gwasanaeth Prawf yn ystyried y sylwadau hyn wrth ystyried amodau trwydded.

Bydd dioddefwyr sydd wedi dewis ymuno â'r cynllun yn cael Swyddog Cyswllt Dioddefwyr a fydd yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i ryddhau troseddwr, ac yn egluro beth sy'n digwydd nesaf. Byddant hefyd yn cefnogi'r dioddefwr i gyflwyno sylwadau am amodau trwydded, os yw'n dymuno gwneud hynny.

Gall dioddefwyr cymwys optio i mewn i'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr ar unrhyw adeg yn ystod dedfryd troseddwr, hyd yn oed os oeddent wedi optio allan yn y gorffennol drwy gysylltu â: VCSenquiries@justice.gov.uk

Dioddefwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr:

Byddwn yn rhoi proses newydd ar waith i alluogi dioddefwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i ofyn am wybodaeth am droseddwr.

Byddwn yn nodi'r dioddefwyr y mae'r newidiadau hyn yn effeithio arnynt a, phan fydd manylion cyswllt ar gael, byddwn yn cysylltu â nhw i egluro sut y gallant ofyn am wybodaeth am eu hachos.

## Pa gymorth sydd ar gael i ddioddefwyr?

Rydym yn cydnabod bod clywed am ryddhau troseddwr yn gallu bod yn ofidus, ac efallai y bydd angen cymorth emosiynol a chyngor ymarferol ar rai. Dyna pam rydym yn buddsoddi £18.9m yn ychwanegol mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Gall dioddefwyr gael gafael ar wybodaeth am y cymorth sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol drwy fynd i: https://victimandwitnessinformation.org.uk/

Rydym yn sefydlu llinell gymorth benodol i ddarparu cymorth emosiynol, cyngor ymarferol, a lle diogel i siarad i helpu dioddefwyr i gael gafael ar y cymorth y gallai fod ei angen arnynt. Ni fydd y llinell gymorth yn gallu darparu manylion penodol am achosion na dyddiadau rhyddhau, a fydd yn hytrach yn cael eu cyfleu'n uniongyrchol i ddioddefwyr cymwys drwy'r llwybrau a ddisgrifir uchod.

Dylai'r llinell gymorth hon fod ar gael erbyn mis Hydref fan bellaf. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hyrwyddo'r llinell gymorth pan fydd ar gael, ac yn sicrhau bod Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr yn ymwybodol ohoni er mwyn iddynt allu cyfeirio dioddefwyr at y gwasanaeth lle bo hynny'n briodol.

Yn y cyfamser, gall dioddefwyr hefyd gael gafael ar linellau cymorth cenedlaethol eraill, ac mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod:

Llinell Gymorth Cam-drin Domestig: 0808 200 0247
Llinell Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol: 0808 500 2222
Llinell Gymorth Stelcio: 0808 802 0300
NSPCC: 0808 800 5000
Cymorth i Ddioddefwyr: 0808 16 89 111